**Rhif: WG52328**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Ymgynghoriad ar y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Gweithlu drafft o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

2 Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 978-1-83745-385-6 ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu Drafft o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ac ymateb Llywodraeth Cymru.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn iaith arall.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Yr Is-adran Caffael Masnachol
Tîm Deddfwriaeth Caffael
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: sociallyresponsiblepublicprocurementconsultation@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu Drafft | LLYW.CYMRU

# Cynnwys

Cyflwyniad a’r Broses Ymgynghori .......... 4
Ymatebion i’r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru .......... 5
Y camau nesaf .......... 15

## Cyflwyniad a’r Broses Ymgynghori

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn Atodlen 1 (awdurdodau contractio) gaffael yn gyhoeddus mewn ffordd sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

Mae Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Gweithlu Drafft (“Cod y Gweithlu”) yn nodi gofynion ar gyfer awdurdodau contractio wrth allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus, gyda’r nod o gynnal neu wella ansawdd gwasanaeth ac ymgorffori egwyddorion gwaith teg.

Bwriad y Cod yw sicrhau bod penderfyniadau allanoli a threfniadau contractiol yn cynnal amddiffyniadau'r gweithlu, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn cefnogi nodau llesiant y Ddeddf. Mae’n cynnwys darpariaethau ar:

1. Trosglwyddo staff
2. Staff eraill sy’n gweithio ar gontractau wedi’u hallanoli
3. Pensiynau
4. Is-gontractau
5. Monitro gweithrediad
6. Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch a yw Cod newydd y Gweithlu a'r cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol yn bodloni'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth. Roedd hefyd yn gwahodd adborth ar yr effaith bosibl ar y Gymraeg a chyfleoedd i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol.

Cafodd Llywodraeth Cymru 30 ymateb i’r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu’r ymatebion i’r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Rhannwyd yr ymgynghoriad yn gwestiynau gorfodol a chwestiynau dilynol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol lle'r oedd yr ymatebydd wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf â phob cwestiwn. Yn ogystal, roedd tri chwestiwn yn ymwneud â'r Gymraeg.

### 1. Trosglwyddo staff (adran 4 o God y Gweithlu)

C1a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd gofynion Cod y Gweithlu ar drosglwyddo staff yn sicrhau'n ddigonol bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yn cael ei gynnal neu ei wella (A32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru))?

C1b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 1a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod Cod y Gweithlu'n cyflawni bwriad y polisi.

### Crynodeb o'r ymatebion

At ei gilydd, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 15 o'r 30 ymateb yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd saith ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd wyth ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Daeth 16 sylw i law.

Datgelodd yr ymatebion i gwestiwn 1b rai pryderon, er bod gofynion Cod y Gweithlu ar drosglwyddo staff yn cynnig amddiffyniadau pwysig i weithwyr, nid oedd y gofynion hyn ar eu pen eu hunain yn gwarantu cynnal na gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus pan fydd allanoli'n digwydd. Nododd rhai ymatebwyr fod ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys rheoli contractau'n gadarn, caffael effeithiol, ac ymgysylltiad parhaus staff ac undebau llafur. Tynnodd nifer o ymatebwyr eraill sylw at bwysigrwydd diogelu telerau trosglwyddo staff a staff eraill.

Codwyd pryderon ynghylch iaith sydd, mewn mannau, yn ymddangos fel pe bai'n caniatáu i awdurdodau contractio nodi amgylchiadau pan na fyddai'n ofynnol iddynt gynnwys cymalau'r gweithlu, na hysbysu Gweinidogion Cymru na fyddant yn cael eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys pryderon am y term "rhesymau gwirioneddol eithriadol" ym mharagraff 4.6 o'r Cod, sy'n cyfeirio'n ôl at baragraff 2.2 o'r Cod lle disgrifir rhesymau eithriadol gan ddefnyddio'r ymadrodd "gallai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i..."

Gofynnodd un ymatebydd, yn ogystal â chael yr hawl i beidio â throsglwyddo i gyflogwr newydd, y dylid cynnig cyfle i weithwyr gael eu hadleoli o fewn yr awdurdod contractio.

Mae nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac eraill isod, yn defnyddio'r term "cymal" ond yna'n cyfeirio at rifau paragraffau yn y Cod, sy'n dangos nad yw pob ymatebydd wedi gallu gwahaniaethu'n hawdd rhwng dwy adran y ddogfen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw diogelu telerau ac amodau'r gweithlu yn arwain yn awtomatig at well ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag, y cynsail y tu ôl i'r Cod hwn, a'r Cod Ymarfer presennol ar Faterion y Gweithlu, yw bod methu â diogelu telerau staff sy'n trosglwyddo, neu ganiatáu anghysondeb rhwng eu telerau nhw a thelerau gweithwyr eraill sy'n dod i mewn i ddarparu'r gwasanaeth, yn debygol o danseilio morâl a lleihau ansawdd y gwasanaeth dros amser. Eglurwyd y cysylltiad hwn rhwng llesiant y gweithlu ac ansawdd gwasanaeth ym Memorandwm Esboniadol y Bil a thynnodd nifer o ymatebwyr eraill sylw ato.

Nid yw'r Ddeddf yn darparu hawl i adleoli i'r staff hynny nad ydynt yn dymuno trosglwyddo i gyflogwr newydd. Byddai cynnwys hawl o'r fath yn mynd â'r Cod y tu hwnt i'w gylch gwaith cyfreithiol a gallai hefyd greu anawsterau ymarferol i awdurdodau contractio. Mae hwn yn fater i bob awdurdod contractio ei ystyried mewn perthynas â'i weithdrefnau cyflogaeth ei hun.

Er mwyn osgoi dryswch rhwng y Cod a'r cymalau, rhoddir sylw i gynllun y ddogfen a gyhoeddir er mwyn gwneud y gwahaniaeth yn gliriach.

Bydd y geiriau "gallai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i" yn cael eu diwygio i ddiffinio "amgylchiadau eithriadol" yn fwy manwl. Bydd hyn yn golygu y bydd angen disgrifio unrhyw amgylchiadau eraill dros beidio â chynnwys y cymalau, y credir eu bod yn eithriadol gan Awdurdod Contractio, mewn hysbysiad i Weinidogion Cymru.

I gyd-fynd ag adrannau eraill o Ran 3 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn dod i rym, bydd paragraff 1.4 o'r Cod yn cael ei ddiwygio fel y bydd yn berthnasol i unrhyw gaffael allanoli gwasanaethau sydd ar y gweill ar ôl i'r adran berthnasol o'r Ddeddf ddod i rym. Dim ond pan gafodd y gwasanaeth neu'r swyddogaeth gyhoeddus eu hallanoli'n wreiddiol o dan y Cod blaenorol y mae'r Cod blaenorol yn berthnasol.

**2. Pensiynau (adran 5 o God y Gweithlu)**

C2a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd gofynion Cod y Gweithlu ar bensiynau yn sicrhau'n ddigonol bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yn cael ei gynnal neu ei wella (A32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru))?

C2b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 2a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod Cod y Gweithlu'n cyflawni bwriad y polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**
At ei gilydd, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda 15 o'r 30 ymateb yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu’n anghytuno’n gryf.

Nid oedd naw ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Derbyniwyd 17 sylw ysgrifenedig, a nododd llawer nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng pensiynau ac ansawdd gwasanaethau wedi’u hallanoli. Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd fod cysylltiad rhwng diogelu hawliau pensiwn a thegwch, sefydlogrwydd a chadw staff.

Codwyd pryderon ynghylch effaith y gofynion hyn ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach, oherwydd cost gymharol uchel paru buddion pensiwn cyhoeddus. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai hyn atal cynigwyr, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau caffael.

Codwyd pryderon ynghylch y term “gweddol gymaradwy” mewn perthynas â diogelu pensiynau ar gyfer cyrff gan gynnwys awdurdodau lleol (Adran 5.2 o’r Cod a 3.3 o’r cymalau). Darparwyd enghreifftiau lle mae gweithwyr wedi cael cynnig cymhellion i dderbyn cytundebau pensiwn llai ffafriol neu wedi mynd yn ôl ar ddangosydd cynharach y byddai pensiynau’n cael eu diogelu. Galwodd rhai ymatebwyr am i’r Cod ymestyn darpariaethau’r Fargen Deg i’r holl weithwyr sy’n trosglwyddo, i’w gwneud yn ofynnol i gontractwyr ymrwymo i’r un cynllun pensiwn drwy gydol contract, ac i orfodi undeb llafur i gymryd rhan yn y sefyllfaoedd hyn.

Nodwyd hefyd yr anhawster o ran olrhain a chynnal pensiynau tebyg ar gyfer allanoli ail genhedlaeth ac ail haen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw diogelu telerau ac amodau’r gweithlu yn arwain yn awtomatig at well ansawdd gwasanaeth. Fodd bynnag, mae’r Llywodraeth o’r farn y gall diogelu pensiynau’r gweithlu helpu i gynnal morâl a thrwy hynny gynnal ansawdd y gwasanaeth, barn a rennir ag ymatebwyr eraill.

Rhaid i eiriad y Cod a’r cymalau adlewyrchu’r iaith a ddefnyddir yn y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall. Nid yw newid y geiriad o “gweddol gymaradwy” i “yr un peth neu well” yn adlewyrchu’r iaith a ddefnyddir yn y Ddeddf. Dylid nodi hefyd mai “gweddol gymaradwy” yw’r geiriad yng Nghyfarwyddiadau Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2022.

Er ei bod yn ymddangos yn rhesymol disgwyl i gontractwr ymrwymo i gynllun pensiwn am oes y contract, gallai hyn greu problemau ymarferol, er enghraifft os oes angen trosglwyddo pensiynau am resymau annisgwyl. Fodd bynnag, bydd y Cod yn cael ei ddiwygio i dynnu sylw at y gofyniad i sicrhau bod diogelwch pensiwn yn cael ei ddarparu drwy gydol unrhyw gontract ac mewn perthynas ag unrhyw gontract allanoli gwasanaethau yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y cymalau hyn yn mynd yn rhy bell ac eraill yn teimlo nad ydynt yn mynd yn ddigon pell o ran diogelu pensiynau gweithwyr sy’n trosglwyddo, safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod y Cod yn taro cydbwysedd priodol, ac yn adlewyrchu’r geiriad yn y Ddeddf a’r ddeddfwriaeth berthnasol, sy’n diogelu pensiynau staff sy’n cael eu hallanoli.  Yn amodol ar y mân ddiwygiadau a

amlinellir uchod, ni fydd unrhyw newidiadau pellach i'r Cod yn cael eu gwneud mewn perthynas â phensiynau.

**3. Staff eraill (adran 6 o God y Gweithlu)**

C3a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd darpariaethau Cod y Gweithlu ar gyfer Staff Eraill yn sicrhau'n ddigonol bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yn cael ei gynnal neu ei wella (A32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru))?

C3b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 3a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod Cod y Gweithlu'n cyflawni bwriad y polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**
Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 11 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd 13 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 16 o sylwadau ysgrifenedig. Roedd galwadau am ddiffiniad cliriach o "staff eraill" yn enwedig oherwydd y gallai gweithwyr, mewn rhai amgylchiadau, weithio i fwy nag un gwasanaeth wedi'i allanoli ar delerau cyflogaeth gwahanol. Roedd cefnogaeth eang hefyd i'r egwyddor y dylai'r holl staff sy'n gweithio ar yr un contract gael eu trin yn deg, gyda thelerau a threfniadau pensiwn teg i gryfhau morâl a chydlyniant. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr wedi nodi y gallai hyn arwain at weithlu dwy haen yn sefydliad y contractwr.

Cwestiynwyd y telerau "rhesymol" a "dim llai ffafriol" mewn perthynas â phensiynau staff eraill, a chafwyd cais i'w gwneud yn ofynnol i staff eraill gael mynediad at gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus.

Mae ymatebwyr eraill yn poeni y bydd y costau'n annymunol i gynigwyr, yn enwedig rhai mwy sy'n gweithredu ar draws nifer o gontractau wedi'u hallanoli. Mae pryderon hefyd am gontractwyr bach a fforddiadwyedd pensiynau ac am heriau ymarferol monitro oherwydd cymhlethdod cynyddol dros amser. Nododd rhai ymatebwyr yr anawsterau ymarferol o fonitro cydymffurfiaeth â chytundebau pensiwn ar gyfer ail genhedlaeth ac ail haen wedi'u hallanoli.

Roedd galw hefyd am rôl gliriach i Undebau Llafur o ran dod i gytundeb ynghylch telerau'r Staff Eraill.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Byddai'n anodd rhoi diffiniad cliriach o "staff eraill", er enghraifft drwy bennu cyfran o amser gweithiwr y dylid ei neilltuo i gontract er mwyn i'r diffiniad o "staff eraill" fod yn berthnasol. Mae problemau ymarferol yn cynnwys y ffaith y gall y gyfran amrywio, a gallai hyn ychwanegu cymhlethdod. Gallai gosod torbwynt penodol arwain at

ganlyniadau anfwriadol, fel cymell darnio wythnos waith unigolyn i sicrhau ei fod yn aros yn is nag unrhyw dorbwynt, nad yw'n debygol o fod o fudd i'r gweithiwr, y gwasanaeth, neu'r rheini sy'n ymwneud â monitro'r defnydd o'r Cod drwy'r contract. Mae peidio â gwneud y darpariaethau hyn yn y Cod a'r cymalau yn golygu y bydd angen i gontractwyr ddod o hyd i atebion sy'n osgoi dwy haen neu fwy o weithwyr sy'n darparu gwasanaethau tebyg. Mae'r Cod yn annog contractwyr i ymgysylltu ag Undebau Llafur i fynd i'r afael â heriau o'r math hwn.

Byddai ei gwneud yn ofynnol i Staff Eraill gael mynediad at gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn ymestyn cylch gwaith y Cod y tu hwnt i'r dyletswyddau yn y Ddeddf, ac felly ni fydd y Cod yn cael ei ddiwygio.

## 4. Is-gontractau (adran 7 o God y Gweithlu)

C4a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd darpariaethau Cod y Gweithlu ar is-gontractio'n sicrhau'n ddigonol bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yn cael ei gynnal neu ei wella (A32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru))?

C4b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 4a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod Cod y Gweithlu'n cyflawni bwriad y polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**
Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 16 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd pum ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd naw ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 14 o sylwadau ysgrifenedig. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryder ynghylch gallu awdurdodau contractio i wneud y gwaith monitro sy'n ofynnol i oruchwylio cydymffurfiad ar ôl is-gontractio'r contract. Roedd pryderon hefyd ynghylch y posibilrwydd o barhau i ymgysylltu ag undeb llafur ar ôl i is-gontractau gael eu rhoi ar waith, a chais i sicrhau ymgysylltiad parhaus ag undebau.

Awgrymwyd bod y gair "dylai" ar ddechrau adran 7 o'r Cod yn cael ei ddisodli gan "rhaid" i gryfhau'r rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio, i sicrhau bod gofynion y Cod yn parhau pan fydd y contract yn cael ei is-gontractio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Bydd dechrau adran 7 o'r Cod yn newid i egluro, os yw awdurdod contractio yn cynnwys y cymalau, yna "rhaid" iddo gymryd camau rhesymol (yn hytrach na "dylai"). Mae hyn er mwyn cyd-fynd â geiriad y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o gamau y gellid eu cymryd, ac felly bydd y gair "rhaid" ar ddechrau 7.2 yn cael ei ddiwygio i "dylai".

Cydnabyddir y bydd yn anoddach olrhain cydymffurfiaeth â'r Cod pan fydd contract yn cael ei is-gontractio. Fodd bynnag, nodir y gofyniad hwn yn y Ddeddf ac nid yw'n destun yr ymgynghoriad hwn.

Byddai rhwymedigaeth i sicrhau bod undeb llafur yn parhau i gymryd rhan yn y cam is-gontractio yn mynd y tu hwnt i'r dyletswyddau yn y Ddeddf. Mae'r Cod yn hyrwyddo ymgysylltiad parhaus ag undeb llafur, felly yn amodol ar y mân ddiwygiadau a amlinellir uchod, ni fydd unrhyw newidiadau pellach i'r Cod yn cael eu gwneud.

## 5. Monitro gweithrediad (adran 8 o God y Gweithlu)

C5a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd darpariaethau Cod y Gweithlu ynghylch monitro gweithrediad yn sicrhau'n ddigonol bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yn cael ei gynnal neu ei wella (A32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru))?

C5b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 5a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod Cod y Gweithlu'n cyflawni bwriad y polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**
Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 16 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cwestiwn.

Roedd chwe ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd wyth ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 15 o sylwadau ysgrifenedig. Gofynnodd nifer o ymatebwyr am dempled adrodd safonol er mwyn gallu casglu ac adrodd ar wybodaeth mewn ffordd gyson. Darparodd un ymatebydd enghreifftiau o achosion lle nad oedd rhwymedigaethau'r Cod yn cael eu monitro a'u gorfodi dros amser.

Awgrymwyd y dylid cynnwys y broses Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) sydd wedi'i chynnwys fel atodiad i God presennol y Gweithlu yn y Cod newydd, i ddatrys anghytundebau ynghylch defnydd y Cod. Gofynnodd un ymatebydd am osod cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio.

Awgrymwyd bod y rhestr o faterion i'w monitro'n barhaus yn adran 6 y cymalau yn cael ei hymestyn i gynnwys a yw undeb llafur yn parhau i ymwneud â'r gwasanaeth wedi'i allanoli a monitro'r gweithlu yn ôl nodwedd warchodedig.

Nodwyd y byddai rhai o'r diwygiadau hyn a awgrymwyd yn cyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig sy'n deillio o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 2025 Llywodraeth y DU.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes modd datblygu ffurflen rheoli contractau y gallai awdurdodau contractio ei defnyddio.

Roedd y broses ADR yng Nghod presennol y Gweithlu wedi'i chynllunio i fynd i'r afael ag anghytundebau ynghylch a ddylid rhoi cymalau'r Cod ar waith mewn contract allanoli, a sut dylid gwneud hynny. Roedd angen hyn ar gyfer fersiwn gyfredol y Cod gan nad oedd dull arall ar gael at y diben hwn. Bydd Cod y Gweithlu presennol yn cael ei dynnu'n ôl unwaith y bydd y Cod Allanoli a'r Gweithlu sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yn dod i rym. Mae'r Cod newydd yn cynnwys proses hysbysu lle mai Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu a ydynt yn fodlon â'r rhesymau a ddarperir dros beidio â chynnwys y cymalau. Mae gan Weinidogion bwerau o dan y Ddeddf i gyfarwyddo awdurdodau contractio i gynnwys y cymalau os nad ydynt yn fodlon â'r rhesymau a roddwyd. Byddai ychwanegu cam ADR arall yn arwain at oedi a dyblygu yn y broses.

Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cosbau ariannol am beidio â chydymffurfio â'r cymalau. Mater i bob Awdurdod Contractio yw hynny, a fydd yn dibynnu ar unrhyw rwymedïau / iawndaliadau cytundebol sydd mewn contractau gyda'i gontractwyr.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ymgysylltu'n barhaus ag undebau llafur, ac nid yw'n gofyn am ddata ar nodweddion gwarchodedig fel rhan o gontract wedi'i allanoli. Byddai gwneud y newidiadau hyn yn symud y Cod y tu hwnt i'r pwerau a'r rhwymedigaethau yn y Ddeddf.

Gellir cryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol Awdurdod Contractio i fynnu ymgysylltiad parhaus ag undebau llafur ar ôl allanoli, os nad yw hyn eisoes yn ofyniad. Fodd bynnag, mater i bob Awdurdod Contractio a'i undebau llafur yw hyn.

Ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r Cod.

## 6. Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (Atodiad 1 i God y Gweithlu)

C6a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cymalau'r Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn bodloni'r gofynion o dan adran 33 o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)?

C6b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 6a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod y Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn cyflawni bwriad y polisi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 17 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd naw ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 11 o sylwadau ysgrifenedig. Gan fod y Cod a'r cymalau'n cyfeirio at ei gilydd, mae sylwadau a wneir mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y Cod, a'r cymalau.

Mae rhai ymatebwyr wedi nodi meysydd lle maent yn credu bod anghysondeb rhwng iaith yn y Cod a’r cymalau. Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad o’r rhesymau pam nad yw adrannau 9 a 10 o’r Cod yn cael eu hailadrodd yn y cymalau, ond mae’r rhain yn mynnu y dylid cytuno ar ddarpariaethau ychwanegol dim ond pan fyddant yn fuddiol ac nad ydynt yn niweidiol i staff, ac y dylid ymgynghori ag undebau llafur.

Gwnaeth un ymatebydd gymhariaeth fanwl rhwng y Cod ac mae geiriad y Ddeddf wedi nodi rhai mân anghysondebau drafftio.

Nodwyd ffynhonnell bosibl o ddryswch rhwng y gofyniad i sicrhau bod is-gontractau yn cynnwys y cymalau a darpariaeth ar "hysbysu'r AC os yw'r contractwr yn bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys y cymalau".

Roedd un ymateb yn cynnwys enghraifft lle nad oedd staff wedi’u hallanoli wedi cael cynnig codiad cyflog y byddent wedi’i gael pe baent yn dal i gael eu cyflogi gan y corff cyhoeddus. Mae’r ymatebydd yn gofyn am ymestyn gofynion Rhyddid Gwybodaeth i gynnwys darparwyr gwasanaethau wedi’u hallanoli ac y dylai gwybodaeth fonitro ymestyn i gynnwys data demograffig ar weithwyr wedi’u hallanoli.

Mae ymateb arall yn gofyn a allai awdurdod contractio addasu’r cymalau hyn, ac mae un arall yn awgrymu dull gwerthuso y gallai awdurdodau contractio ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn barod i gydymffurfio â’r Cod.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd yr holl anghysondebau drafftio a nodwyd yn cael sylw, fel newid y gair "hysbysu" i "gynnig" yng nghymal 5.2 cyn ymrwymo i'r contract, er mwyn helpu i egluro bod disgwyl i isgontractwyr gynnwys y cymalau.

Mae’r Ddeddf yn mynnu bod cymalau sydd yr un fath neu’n sylweddol debyg â’r rhai a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cymalau hyn) yn cael eu cynnwys mewn contractau ac is-gontractau ac ati. Nid oes darpariaeth ar gyfer addasu’r cymalau. Os oes rhesymau pam mae Awdurdod Contractio a restrir yn Atodlen 1 yn penderfynu na all gynnwys y cymalau, ac eithrio yn yr achosion eithriadol a restrir yn adran 2.3 o’r Cod, rhaid anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru.

Ni all y Cod a’r cymalau osod rhwymedigaeth ar gontractwr i ailadrodd yr holl godiadau cyflog a ddarperir i staff a gedwir mewn corff cyhoeddus, yn dilyn y rhai y cytunwyd arnynt adeg allanoli. Am y rheswm hwn, mae anghysondebau, ac eraill, gan gynnwys ailstrwythuro, yn debygol o ddatblygu dros amser. Bydd monitro parhaus, sy’n cael sylw yn adran 6 y cymalau, a chyfraniad parhaus undeb llafur, yn helpu i ddatrys anghydfodau rhwng y contractwr a’r gweithwyr a allai godi am y mathau hyn o resymau. Fodd bynnag, ni ellir gwneud newidiadau i’r Cod a’r cymalau i ymestyn ei bwerau y tu hwnt i’r hyn a nodir yn y Ddeddf nac i ragweld datblygiadau sy’n deillio o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth y DU 2025. Bydd y Cod yn cael ei adolygu a’i ddiwygio yn unol ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr awgrymiadau a ddarparwyd ynghylch monitro’r cymalau’n barhaus a pha mor ymarferol yw cyhoeddi canllawiau sy’n cefnogi dull safonol o fonitro.

Yn ogystal â'r newidiadau a nodwyd uchod, bydd mân newidiadau i ddiffiniadau Allanoli Ail Genhedlaeth, Trosglwyddo, Staff wedi'u Trosglwyddo/Sy'n Trosglwyddo yn cael eu gwneud, yn ogystal â diwygiad i adran 3.3 i sicrhau diogelwch pensiwn drwy gydol y contract.

## 7. Cod y Gweithlu

C7a: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cod y Gweithlu yn bodloni'r gofynion o dan adran 32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), (h.y. bydd yn cynnal neu'n gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio)?

C7b: Os gwnaethoch chi ateb anghytuno neu anghytuno'n gryf i Gwestiwn 7a, eglurwch pam nad ydych yn credu bod hyn yn cyflawni bwriad y polisi?

**Crynodeb o'r ymatebion**
Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gydag 14 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno.

Roedd pedwar ymatebydd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nid oedd 12 ymatebydd yn cytuno nac yn anghytuno, neu roeddent wedi gadael yr ateb yn wag.

Cafwyd 14 o sylwadau ysgrifenedig. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu gwneud sylwadau cyffredinol am lwyddiant tebygol Cod y Gweithlu ac ar y cwestiwn o allanoli'n fwy cyffredinol.

Gwnaeth un ymateb nifer o bwyntiau cyffredinol ac ehangach, gan ofyn yn gyntaf pam nad yw cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chynghorau cymuned yn dod o dan y Cod pan fyddant wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer cyfredol ar Faterion y Gweithlu 2014, ac a fydd gofynion y Cod newydd yn berthnasol i Gwmnïau Masnachu Awdurdodau Lleol, Is-gwmnïau o dan berchnogaeth lwyr a Phartneriaethau Cyd-wasanaethau. Roedd yr ymateb hwn hefyd yn gofyn am gynnwys rhagdybiaeth o blaid mewnoli yn y Cod, a bod darpariaethau'n cael eu gwneud i sicrhau bod gan swyddogion Undeb Llafur ddigon o amser a gwybodaeth i gymryd rhan mewn prosesau allanoli'n effeithiol. Mae'r ymateb yn gofyn am hawl i weithwyr wneud cynigion amgen i osgoi allanoli, a mecanweithiau ar gyfer diogelu gweithwyr agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n dod o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Gofynnir am hawl arall i delerau ac amodau gweithwyr wedi'u hallanoli gadw i fyny â'r staff sy'n aros yn y corff sy'n allanoli.

Mae nifer o ymatebwyr eraill yn nodi bod Cod y Gweithlu, yn eu barn nhw, yn bodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf a bod ganddo'r potensial i wreiddio egwyddorion gwaith teg mewn contractau wedi'u hallanoli, os oes trefniadau rheoli contractau cadarn ar waith. Mae ymatebwyr eraill yn poeni am y baich ychwanegol

posibl y mae’r gofynion hyn yn ei roi ar awdurdodau contractio sydd eisoes yn ei chael hi’n anodd gweithredu newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth caffael.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ran ysgolion a gynhelir a chynghorau cymuned, nid yw sefydliadau nad ydynt wedi’u cynnwys yn Atodlen 1 i’r Ddeddf o fewn cwmpas y Ddeddf na’r ymgynghoriad hwn, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y sefyllfa mewn perthynas â sefydliadau eraill nad ydynt wedi’u cynnwys yn Atodlen 1.  Bydd is-gwmnïau o dan berchnogaeth lwyr yn dod o dan ofynion y Cod a bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyrff hyn gynnwys y cymalau mewn unrhyw is-gontractau.

Mae mynnu rhagdybiaeth o blaid mewnoli, sancsiynau am beidio â chydymffurfio a darpariaethau i hwyluso ymgysylltiad undebau mewn penderfyniadau allanoli ac ati hefyd y tu allan i gwmpas y Ddeddf ac, o ganlyniad, y Cod hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes cyfle i Lywodraeth Cymru helpu i weithredu a monitro, er enghraifft drwy ddatblygu unrhyw ganllawiau neu ffurflenni monitro pellach.

**8. Y Gymraeg**

C8a: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol Cod y Gweithlu ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau positif?

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

C8b: Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid Cod y Gweithlu er mwyn gwneud y canlynol:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Materion Eraill

C8c:  Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

**Crynodeb o’r ymatebion**

Cafwyd 21 o sylwadau ysgrifenedig. Daeth ymatebwyr i’r casgliad bod gan God y Gweithlu a’r cymalau’r potensial i gefnogi’r Gymraeg, yn enwedig drwy gynnal

parhad pan fydd swyddogaethau cyhoeddus yn cael eu hallanoli. Fodd bynnag, ystyrir bod diffyg cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn y Cod yn wendid sylweddol, gan beryglu darpariaeth anghyson a llai o gyfleoedd i staff a defnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio’r Gymraeg. Ystyriwyd bod effaith y Cod ar y Gymraeg yn dibynnu ar ofynion clir, monitro cadarn, a hyrwyddo dwyieithrwydd yn rhagweithiol.

Awgrymwyd hefyd y gallai sgiliau Cymraeg staff wedi’u hallanoli gael eu cofnodi a’u monitro ac y gallai’r Cod gael ei ategu gan wybodaeth bellach, sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth wedi’u hallanoli barhau i hyrwyddo’r Gymraeg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (rhif 1) 2015 yn nodi bod Safonau’r Gymraeg yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw wasanaeth neu weithgaredd a ddarperir ar ran awdurdodau contractio drwy drydydd partïon. Pan fydd trydydd partïon yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau ar ran awdurdodau contractio, rhaid iddynt felly gydymffurfio â gofynion y Safonau sydd wedi’u cymhwyso i awdurdodau contractio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at hyn yn y Cod.

Byddai cynnwys monitro sgiliau Cymraeg fel rhan o fonitro’r Cod yn ymestyn gofynion y Cod y tu hwnt i ddyletswyddau’r Ddeddf. Fodd bynnag, efallai y bydd lle i ddatblygu cyngor atodol i ddarparwyr gwasanaethau wedi’u hallanoli ar hyrwyddo’r Gymraeg maes o law.

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o’u hamser i ymateb i’r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, ni fydd yr holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Y bwriad yw gwneud rhai newidiadau i God y Gweithlu a chymalau fel y nodir, a bydd y drafft terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a’i osod gerbron y Senedd, fel y nodir yn Adran 32(4) o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).